
# GOGLEDD CYMRU



# Adroddiad Blynyddol 2018 – 2019

# Rhagarweiniad

Mae’n bleser gennym gyhoeddi Adroddiad Blynyddol MAPPA 2018/19 ar gyfer Trefniadau Amlasiantaethol Amddiffyn y Cyhoedd Bwrdd Rheoli Strategol Gogledd Cymru.

Mae’r adroddiad hwn yn amlinellu’r gwaith y mae’r Bwrdd Rheoli Strategol wedi’i wneud i wella effeithiolrwydd MAPPA yn ystod y flwyddyn wrth reoli troseddwyr treisgar a rhywiol i leihau aildroseddu a diogelu’r cyhoedd. Mae hefyd yn cynnig y cyfle i ni ddangos ein atebolrwydd i’r cymunedau lleol yr ydym yn eu gwasanaethau.

Mae amddiffyn y cyhoedd yn hanfodol i Awdurdodau Cyfrifol MAPPA (yr Heddlu, Carchardai a’r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol) ac mae popeth a wnawn yn canolbwyntio ar sicrhau diogelwch parhaus ein cymunedau. Mae troseddu rhywiol a treisgar yn ffurfio canran fach o’r troseddau y mae’r pedwar Cwnstabliaeth ledled Cymru yn ymdrin â. Fodd bynnag, mae’r effaith ddinistriol y mae’r digwyddiadau hyn yn ei gael ar ddioddefwyr a chymunedau yn enfawr. Gellir sicrhau aelodau’r cyhoedd drwy’r adroddiad hwn fod gwaith yn parhau 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos i amddiffyn y cymunedau yr ydym yn byw ynddynt.

Nid yw’n bosib dileu’r risgiau a beri’r gan droseddwyr difrifol yn llwyr. Fodd bynnag, yr hyn y gellir ei ddisgwyl yw bod pob cam rhesymol wedi’i gymryd i leihau’r risg o niwed difrifol i’r cyhoedd gan droseddwyr hysbys ynghyd a hyrwyddo adsefydlu. Mae’r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ystadegol am y rhai hynny sy’n cael eu rheoli o dan MAPPA yn ystod y flwyddyn fusnes ddiwethaf, yn ogystal a darparu gwybodaeth am sut mae’r trefniadau yn gweithio’n ymarferol yn lleol.

Mae cyflawniadau’r Bwrdd Rheoli Strategol yn adlewyrchu’r cyfraniadau sylweddol a wnaed gan yr holl asiantaethau sy’n ymwneud a MAPPA ledled Gogledd Cymru, a hoffem ddiolch i’n holl bartneriaid sydd wedi cyfrannu at y trefniadau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae’r ystod eang o brofiad ac arbenigedd wrth reoli achosion MAPPA yn eithriadol ac nid oes amheuaeth o’r ymrwymiad y mae asiantaethau’n ei ddangos i gyflawni’r safonau uchaf. Hyderwn hefyd fod yr adroddiad hwn yn dangos ymrwymiad a phroffesiynoldeb ein staff sydd yn aml ddim yn derbyn sylw’r cyhoedd am eu gwaith heriol a chymhleth. Mae eu hymroddiad yn allweddol i sicrhau bod ein cymunedau’n parhau i fod yn ddiogel.

Wrth argymell yr adroddiad hwn i chi, gobeithiwn ei fod yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i’n gwaith ac yn cynnig sicrwydd bod diogelu’r cyhoedd ac anghenion dioddefwyr yn parhau i fod y flaenoriaeth bennaf.



Ian Barrow
Cyfarwyddwr
Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

# Beth yw MAPPA?

## Cefndir MAPPA

Cyfres o drefniadau yw MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd) i reoli'r risg a gyflwynir gan y troseddwyr rhyw a threisgar gwaethaf (troseddwyr cymwys am MAPPA) o dan ddarpariaethau rhannau 325 i 327B Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

Daw'r trefniadau â gwasanaethau'r Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Carchardai ym mhob un o'r 42 Ardal yng Nghymru a Lloegr at eu gilydd yn un Awdurdod Cyfrifol MAPPA.

Mae gan nifer o asiantaethau eraill Ddyletswydd i Gydweithredu (DTC) â'r Awdurdod Cyfrifol. Mae'r rhain yn cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd, Timau Troseddwyr Ifanc, Y Ganolfan Byd Gwaith a'r Awdurdodau Addysg a Thai Lleol.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cyfrifol benodi dau Gynghorydd Lleyg i eistedd ar Fwrdd Rheoli Strategol (SMB) pob ardal MAPPA ynghyd ag uwch-gynrychiolwyr o bob un o'r Awdurdodau Cyfrifol a'r asiantaethau DTC.

Mae'r Cynghorwyr Lleyg yn aelodau o'r cyhoedd a benodir gan y Gweinidog, sydd heb unrhyw gysylltiad â'r busnes o reoli troseddwyr MAPPA ac sy'n gweithredu fel arsyllwyr annibynnol ond gwybodus; gallant ofyn cwestiynau na fyddai staff proffesiynol yn gweithio yn y maes efallai'n meddwl eu gofyn. Maent hefyd yn cyfrannu eu dealltwriaeth a'u persbectif ar y gymuned leol (lle mae'n rhaid iddynt fod yn byw a bod â chysylltiadau cryf) i'r Bwrdd Rheoli Strategol.

## Sut y mae MAPPA yn gweithio

Mae troseddwyr cymwys MAPPA yn cael eu pennu ac mae gwybodaeth amdanynt yn cael ei rhannu rhwng asiantaethau fel sail i asesiadau risg a chynlluniau rheoli risg y bobl sy'n eu rheoli neu eu goruchwylio.

Dyna gyn belled ag y mae MAPPA yn mynd yn y rhan fwyaf o achosion. Ond, mewn rhai achosion, mae angen rheolaeth amlasiantaethol strwythuredig. Yn yr achosion hyn cynhelir cyfarfodydd MAPPA rheolaidd lle daw ymarferwyr o'r asiantaethau perthnasol ynghyd.

Mae tri chategori o droseddwyr cymwys am MAPPA:

- **Categori 1** – troseddwyr rhyw cofrestredig;
- **Categori 2** – troseddwyr treisgar yn bennaf sydd wedi eu dedfrydu i 12 mis neu fwy yn y carchar neu i orchymyn ysbyty; a
- **Categori 3** – troseddwyr nad ydynt yn gymwys o dan gategori 1 na 2 ond sy'n cyflwyno risg o niwed difrifol ar y pryd.

Mae tair lefel o reolaeth i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu lle mae fwyaf angen eu targedu; fel arfer yn ymwneud â risg uwch o niwed difrifol.

- **Lefel 1** yw rheolaeth asiantaethol arferol (h.y. rheolaeth gan yr asiantaeth arweiniol heb unrhyw gyfarfodydd MAPPA ffurfiol);
- **Lefel 2** yw lle mae angen i fwy nag un asiantaeth gyfrannu'n weithredol i reoli'r troseddwr.
- **Lefel 3** yw lle mae'r cynlluniau rheoli risg yn gofyn presenoldeb ac ymrwymiad adnoddau ar lefel uwch.

Cefnogir MAPPA gan ViSOR. System Technoleg Gwybodaeth genedlaethol yw hon i helpu i reoli troseddwyr sy'n cyflwyno risg ddifrifol o niwed i'r cyhoedd. Mae defnyddio ViSOR yn ei gwneud yn haws rhannu gwybodaeth ar draws sefydliadau a throsglwyddo gwybodaeth allweddol yn ddiogel pan fydd troseddwyr risg uchel yn symud, gan wella unrhyw fesurau amddiffyn y cyhoedd. Mae ViSOR yn golygu bod staff yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Carchardai'n gallu gweithio ar yr un system TG am y tro cyntaf, gan wella ansawdd a phrydlondeb asesiadau risg ac ymyriadau i atal troseddu.

Cyhoeddir pob adroddiad MAPPA o Gymru a Lloegr ar-lein yn: [www.gov.uk](http://www.gov.uk)

# Ystadegau MAPPA

| Troseddwyr cymwys MAPPA ar 31 Mawrth 2019 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr Peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 1 | 911 | 168 | – | 1079 |
| Lefel 2 | 33 | 64 | 26 | 123 |
| Lefel 3 | 2 | 4 | 0 | 6 |
| Cyfanswm | 946 | 236 | 26 | 1208 |

| Troseddwyr cymwys am MAPPA yn Lefelau 2 a 3 yn ôl categori (cyfanswm blynyddol) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 2 | 33 | 49 | 23 | 105 |
| Lefel 3 | 3 | 6 | 1 | 10 |
| Cyfanswm | 36 | 55 | 24 | 115 |

| | |
|---|---|
| **Troseddwyr rhyw cofrestredig (RSO) a gafodd rybudd neu euogfarn am dorri gofynion hysbysu** | 24 |

| | |
|---|---|
| **Troseddwyr RSO lle penderfynwyd diddymu eu gofyniad hysbysu gydol oes drwy wneud cais** | 6 |

| Gorchmynion cyfyngu ar gyfer troseddwyr Categori 1 | |
|---|---|
| **Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPO), Gorchmynion SHPO gyda chyfyngiad ar fynd dramor a Gorchmynion Hysbysu a osodir gan y llysoedd** | |
| SHPO | 80 |
| SHPO gyda chyfyngiad ar fynd dramor | 0 |
| Gorchmynion Hysbysu (NO) | 2 |

| | |
|---|---|
| **Nifer y bobl a ddaeth yn destun gofynion hysbysu'n dilyn torri Gorchymyn Risg Rhywiol (SRO)** | 1 |

| Troseddwyr Lefel 2 a 3 wedi eu dychwelyd i’r carchar | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig** | **Categori 2: Troseddwyr treisgar** | **Categori 3: Troseddwr peryglus eraill** | **Cyfanswm** |
| **Torri trwydded** | | | | |
| Lefel 2 | 12 | 17 | 6 | 35 |
| Lefel 3 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| Cyfanswm | 12 | 18 | 6 | 36 |
| **Torri SOPO** | | | | |
| Lefel 2 | 1 | - | - | 1 |
| Lefel 3 | 0 | - | - | 0 |
| Cyfanswm | 1 | - | - | 1 |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Troseddwyr Rhyw Cofrestredig am bob 100,000 o bobl** | 152 |

Cyfrifwyd y ffigur hwn gan ddefnyddio Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2018: Un flwyddyn oed a rhyw ar gyfer Ardaloedd Heddlu yng Nghymru a Lloegr; amcangyfrif o’r boblogaeth breswyl, a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac eithrio rhai o dan ddeg oed.

# Sylwebaeth esboniadol ar y tablau ystadegol

## Cefndir MAPPA

Mae cyfanswm y troseddwyr sy'n gymwys i MAPPA, yn ôl categori, yn adlewyrchu'r darlun ar 31 Mawrth 2019 (h.y. cipolwg a roddir ganddynt). Mae gweddill y data'n ymwneud â'r cyfnod rhwng 1af Ebrill 2018 a 31ain Mawrth 2019.

**(a) Troseddwyr Cymwys MAPPA** – mae nifer o droseddwyr a ddiffinnir o dan y gyfraith fel rhai sy'n gymwys am reolaeth MAPPA, oherwydd eu bod wedi cyflawni troseddau rhyw a threisgar penodol neu oherwydd eu bod ar y pryd yn cyflwyno risg o niwed difrifol, er bod y rhan fwyaf yn cael eu rheoli o dan drefniadau asiantaethol arferol (Lefel 1) yn hytrach na thrwy gyfarfodydd MAPPA. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys troseddwyr cymwys MAPPA sy'n byw yn y gymuned yn unig. Nid ydynt yn cynnwys rhai sydd yn y carchar neu dan glo o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

**(b) Troseddwyr Rhyw Cofrestredig (RSO)** – sef y rhai sydd angen hysbysu'r heddlu o'u henw, cyfeiriad a manylion personol eraill a rhoi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau sy'n digwydd wedyn (sef y "gofyniad hysbysu"). Mae'r troseddwyr hyn yn cael eu hasesu a'u rheoli gan yr heddlu. Gallent hefyd gael eu rheoli gan y gwasanaeth prawf neu'r gwasanaeth iechyd os ydynt yn destun trwydded neu orchymyn ysbyty. Mae methu â chydymffurfio â'r gofyniad hysbysu'n drosedd ac all arwain at uchafswm cosb o bum mlynedd yn y carchar.

**(c) Troseddwyr Peryglus** – mae'r categori hwn yn cynnwys troseddwyr treisgar a ddedfrydwyd i garchar neu i'w cadw dan glo am 12 mis neu fwy, neu i'w cadw o dan orchymyn ysbyty. Mae hefyd yn cynnwys nifer fach o droseddwyr rhyw nad ydynt yn gymwys i'w cofrestru. Mae'r troseddwyr hynn yn cael eu hasesu a'u rheoli gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, y Tim Troseddu Ieuenctid neu'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl.

**(d) Troseddwyr Peryglus Eraill** – troseddwyr nad ydynt yn gymwys o dan y ddau gategori arall MAPPA, ond sydd ar hyn o bryd yn peri risg o niwed difrifol sy'n gofyn am rheolaeth trwy gyfarfodydd MAPPA. Mae'r troseddwyr hyn yn cael eu hasesu a'u rheoli gan ba bynnag asiantaeth sydd â'r prif gyfrifoldeb amdanynt.

**(e) Torri trwydded** – bydd troseddwyr sy'n cael eu rhyddhau i'r gymuned yn dilyn cyfnod yn y carchar yn cael eu rhoi ar drwydded gydag amodau (o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf). Os torrir yr amodau hyn, cymerir camau tor-trwydded a gall y troseddwr gael eu galw'n ôl i'r carchar.

**(f) Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol (SHPO) (gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ychwanegol ar deithio tramor).** Mae Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPO) a Gorchmynion SHPO interim wedi disodli'r hen Orchmynion Atal Troseddau Rhywiol. Eu pwrpas yw amddiffyn y cyhoedd rhag troseddwyr a gafwyd yn euog o drosedd rywiol neu dreisgar, ac sy'n cyflwyno risg o niwed rhywiol i'r cyhoedd, drwy osod cyfyngiadau ar eu hymddygiad. Mae'r gorchymyn yn gofyn bod y troseddwr yn rhoi eu manylion i'r heddlu (yn unol â Rhan 2 Deddf 2003) drwy gydol cyfnod y gorchymyn.

Rhaid i'r llys fod yn fodlon bod angen y gorchymyn i amddiffyn y cyhoedd (neu unrhyw aelodau penodol o'r cyhoedd) yn y DU, neu blant neu oedolion agored i niwed (neu unrhyw blant neu oedolion agored i niwed penodol) dramor, rhag niwed rhywiol gan y troseddwr. Yn achos gorchymyn a wneir ar gais annibynnol gan brif swyddog neu'r Asiantaeth Droseddu Genedlaethol (NCA), rhaid i'r prif swyddog / NCA allu dangos bod y troseddwr wedi ymddwyn yn y fath fodd ers ei gael yn euog fel bod angen y gorchymyn yn angenrheidiol.

Y cyfnod lleiaf ar gyfer gorchymyn llawn yw pum mlynedd. Yr isafswm oedran yw deg, sef oedran cyfrifoldeb troseddol, ond lle mae'r diffynnydd o dan 18 oed dylid ond ystyried cais am orchymyn mewn amgylchiadau eithriadol.

**(g) Gorchymyn Hysbysu** – lle mae angen i droseddwyr rhyw a gafwyd yn euog dramor gofrestru â'r heddlu, er mwyn amddiffyn y cyhoedd yn y DU rhag y risg y maent yn eu peri. Gall yr heddlu wneud cais i'r llys am orchymyn hysbysu ar gyfer troseddwyr sydd eisoes yn y DU neu sy'n bwriadu dod i'r DU.

## (h) Gorchymyn Risg Rhywiol (gan gynnwys unrhyw gyfyngiad teithio tramor ychwanegol).

Mae'r Gorchymyn Risg Rhywiol (SRO) wedi disodli'r Gorchymyn Risg o Niwed Rhywiol (RoSHO) a gellir ei wneud ar gyfer unigolyn sydd euogfarn am drosedd rywiol neu dreisgar (nac unrhyw drosedd arall) ond sy'n cyflwyno risg o niwed rhywiol.

Gellir gwneud y SRO yn y llys ynadon ar gais yr heddlu neu'r NCA lle mae unigolyn wedi cyflawni gweithred o natur rywiol ac mae'r llys yn fodlon bod yr unigolyn yn cyflwyno risg o niwed i'r cyhoedd yn y DU neu i blant neu oedolion bregus dramor.

Gall SRO wahardd unigolyn rhag gwneud unrhyw beth a ddisgrifir ynddo, gan gynnwys teithio tramor. Rhaid i unrhyw waharddiad fod yn angenrheidiol i amddiffyn y cyhoedd yn y DU rhag niwed rhywiol, neu yng nghyswllt a theithio tramor, amddiffyn plant neu oedolion bregus rhag niwed rhywiol.

Mae'n ofynnol i unigolyn sy'n destun SRO hysbysu'r heddlu o'u henw a'u cyfeiriad cartref cyn pen tridiau ar ôl i'r gorchymyn gael ei wneud a hefyd hysbysu unrhyw newidiadau i'r wybodaeth yma o fewn tridiau.

Gall SRO bara am o leiaf dwy flynedd ac nid oes ganddo uchafswm, ac eithrio unrhyw gyfyngiadau teithio tramor sydd, os yw'n berthnasol yn para am uchafswm o bum mlynedd (ond gellir ei adnewyddu).

Mae'r safon prawf troseddol yn parhau i fod yn berthnasol. Gall yr unigolyn o dan sylw apelio yn erbyn gwneud y gorchymyn ac mae'r heddlu neu'r unigolyn dan sylw yn gallu gwneud cais i amrywio, adnewyddu neu ollwng y gorchymyn.

Mae torri SRO yn drosedd y gellir ei chosbi gan uchafswm o bum mlynedd o garchar. Pan fydd unigolyn yn torri ei SRO, bydd yn dod yn destyn gofynion hysbysu llawn.

Mae unigolion sy'n destun SRO yn cael eu cofnodi ar ViSOR fel Person Peryglus Posib (PDP)

## (i) Diddymu gofynion hysbysu gydol oes drwy wneud cais.

Mae her gyfreithiol yn 2010 ac ymateb deddfwriaethol cyfatebol yn golygu bod trefniadau bellach yn eu lle sy'n caniatáu i droseddwyr rhyw cymwys wneud cais am adolygiad o'u gofynion hysbysu. Nid yw pobl yn dod oddi ar y gofrestr yn awtomatig. Gall troseddwyr cymwys gyflwyno cais i'r heddlu i adolygu eu gofynion hysbysu amhenodol. Mae'r heddlu'n adolygu'r cais ac yn penderfynu a ddylid dirymu'r gofynion hysbysu. Gwneir y penderfyniad hwn ar reng yr Uwch Arolygydd. Bydd y rhai sy'n parhau i beri risg sylweddol yn aros ar y gofrestr am oes, os bydd angen.

Dim ond ar ôl iddynt fod yn destun i ofynion hysbysu amhenodol am gyfnod o 15 mlynedd i oedolion ac 8 mlynedd i droseddwyr ifanc y bydd unigolion yn dod yn gymwys i ofyn am adolygiad. Daeth hyn i rym ar 1 Medi 2012 ar gyfer troseddwyr sy'n oedolion.

# Tudalen Leol

## MAPPA: Ymarfer o ddydd i ddydd

Mae fy rôl fel Swyddog Prawf o fewn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn golygu rheoli risg amlasiantaeth ac mae hyn yn rhan hanfodol o'r hyn yr ydym yn ei wneud fel gwasanaeth. O ddydd i ddydd mae fy rôl yn cynnwys rheoli a goruchwylio troseddwyr yn y gymuned a'r carchar sydd wedi cyflawni troseddau treisgar a rhywiol difrifol. 'Rwyf yn gyfrifol am sicrhau bo Gorchmynion Llys a trwyddedau yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy asesiad risg cynhwysfawr sy'n cymeryd golwg holistaidd o ddefnyddiwr y gwasanaeth ac yn casglu'r wybodaeth berthnasol er mwyn creu cynllun dedfryd. Er mwyn creu cynllun asesu risg a chynllun rheoli risg cadarn, mae MAPPA yn elfen allweddol a fydd yn cyfrannu at ac yn llunio hyn. Mae gweithio ar y cyd gydag asiantaethau eraill yn rhan hanfodol o'r broses asesu a chynllunio gan na all y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol weithio ar ei ben ei hun.

Tra bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn cyrraedd y meini prawf ar gyfer MAPPA Lefel 1, byddaf yn aml yn ystyried cyfeirio i MAPPA Lefel 2 neu 3 pan mae'n amlwg y bo' gan y troseddwr anghenion cymhleth eraill a bod nifer o wasanaethau yn ymgysylltu gyda defnyddiwr y gwasanaeth ar yr un pryd. Gall anghenion yr unigolyn amrywio, serch hynny gall yr anghenion cymhleth gynnwys iechyd meddwl, digartrefedd, diogelu plant a materion yn ymwneud â chamddefnyddio cyffuriau ag alcohol. Mae platfform MAPPA yn galluogi asiantaethau fel yr Heddlu, Iechyd Meddwl, y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Cyffuriau a Thîmau Atal Digartrefedd i weithio gyda'i gilydd i greu cynllun rheoli risg sydd o fewn cyfyngiadau amser ac yn cael ei adolygu. Fy rôl i yw rhoi'r cynlluniau ar waith drwy ymwneud â defnyddwyr y gwasanaeth mewn sesiynau goruchwylio 1:1 ac ymgysylltu gydag asiantaethau partneriaeth. Yn aml gall Swyddogion Prawf brofi rhwystrau i symud ymlaen, serch hynny o fewn maes MAPPA mae'r cofnodion a'r cofnodion gweithredu yn gwneud hi'n glir pwy sydd yn gyfrifol am beth a phryd. Tra bod fframwaith MAPPA wedi cyflwyno 'Awdurdodau Cyfrifol' ac 'Asiantaethau Dyletswydd i Gydweithio', nid yw gweithio ar y cyd a rhannu gwybodaeth gyffredinol heb eu rhwystrau. Mae'r Cadeirydd, y Cydlynydd a'r Bwrdd Rheoli Strategol yn gallu torri'r rhwystrau hyn drwy annog cydweithio.

Rwy'n teimlo bod mynychu cyfarfodydd MAPPA gydag asiantaethau amrywiol yn cynnwys y sector statudol a'r trydydd sector wedi fy ngalluogi i rwydweithio gyda chynrychiolwyr o asiantaethau unigol gan greu sail ar gyfer gweithio ar y cyd yn y dyfodol. Mae hyn wedi fy helpu i greu diwylliant sy'n gweddu i waith amlasiantaeth y tu allan i faes MAPPA. Mae hyn yn ei dro yn cynorthwyo diogelwch y cyhoedd yn ogystal â lleihau troseddu. Yn gyffredinol, mae MAPPA yn rhan annatod i Swyddog Prawf o reoli defnyddwyr y gwasanaeth mewn modd cydweithredol, gan sicrhau ymarfer da a rheoli risg.

**Lucy Jones**
**Swyddog Prawf**

## Rheoli risg ar y cŷd

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi cyflogi swyddog ail-leoli ers 2015. Nod y rôl hon yw cefnogi carcharorion sydd ar fîn cael eu rhyddhau o'r carchar ac sydd heb gartref er mwyn iddynt gael llety ar ôl cael eu rhyddhau. Mae hyn yn her ynddo'i hun o ystyried lefel y bygythiad i'r gymuned y mae rhai carcharorion sy'n gadael y carchar yn ei gario. Mae angen llety ar bawb ac 'rydym yn gweithio yn agos gyda'n cydweithwyr yn y gwasanaeth prawf a'r heddlu er mwyn rheoli risg a sicrhau bo'r symud o garchar i'r cartref mor esmwyth â phosib.
Mae digartrefedd yn ffactor allweddol i lefelau uwch o ail-droseddu. Rydym yn gweithio ar ethos o ymyrryd yn gynnar gan sicrhau bo gymaint o amser â phosib wrth gynllunio i ryddhau carcharorion. Gyda hyn, yn fewnol rydym wedi datblygu grŵp llety ail-leoli carcharorion sy'n cynnwys y tîm dewis tai, ein swyddog cydlynu, landlordiaid a thîm rheoli tai. Anogir penderfyniadau ar y cyd a datblygir llwybr clir ar gyfer pob carcharor drwy weithrediadau sydd wedi eu hystyried yn glir gyda dilyniant. Mae rhai carcharorion wedi mynd yn syth i lety wrth gael eu rhyddhau. Mae hyn wedi profi i fod yn beth positif yn y rhan fwyaf o achosion ac i raddau wedi lleihau ail-droseddu. Mae cefnogaeth ein landlordiaid yn y sector breifat yn allweddol i arbed digartrefedd ymhlith rhai sy'n gadael y carchar, ac rydym yn ddiolchgar iawn iddynt.
Rydym yn gwerthfawrogi gweithio mewn partneriaeth ac mae hyn yn digwydd drwy rannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth ar y cyfle cyntaf. Gyda llai o

adnoddau a chyllid oherwydd mesurau llymder mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i rannu'r baich gwaith. Ar ddechrau 2019 gwelwyd Yr Adran Tai, Heddlu Gogledd Cymru a'r Gwasanaeth Prawf yn cyflwyno i gohort o Aelodau Dethol, staff mewnol y cyngor sir a phartneriaid allanol ar MAPPA. Roedd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar sut y gwnaethon ni reoli'r Troseddwyr Rhyw Cofrestredig o fewn y gymuned o bersbectif sicrhau llety drwy arsylwad yn seiliedig ar y gymuned drwy'r heddlu. Pwnc anodd a dadleuol, serch hynny cafodd dderbyniad da a chafodd y gynulleidfa sicrwydd o weld y rheoli achos amlasiantaeth wedi ei fonitro'n ofalus y tu ôl i bob achos MAPPA ar Ynys Môn.

Mae MAPPA Ynys Môn wedi sefydlu cysylltiadau gwaith da gydag amrywiaeth o bartneriaid dros y 12 mis diwethaf. Mae hyn wedi cynnwys cyd-weithio ar y peilot Wisdom, cyfarfodydd partneriaeth penodol gyda rhai o'n carcharorion mwyaf anhrefnus a risg uchel, cynllunio strategol rhai sy'n gadael y carchar a creu grŵp ail-leoli carcharorion .

**Llinos W. Williams**
**Rheolwr Gwasanaethau Tai Cymunedol**

## Beth yw Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC)?

- Rheoli Troseddwyr yw'r ffordd y mae'r carchar a'r gwasanaeth prawf yn rheoli troseddwyr - o'r llys i'r carchar (neu ddedfryd gymunedol) ac yn ôl allan yn y gymuned ar drwydded.
- Mae rheoli achosion yn cynnwys: asesu, cynllunio, cydlynu cyflwyniad y cynllun dedfryd, rheoli risg, adolygu a gwerthuso.
- Mae'r dull cyfredol wedi bodoli ers 2005 ac wedi cael llwyddiant mawr yn y gymuned ond gyda diffygion sylweddol yn y dull yn ymwneud â dedfrydau o garchar.
- Mae gan yr heddlu nodweddion unigryw yn nhermau proses (e.e. ystyried y peryg o ddianc a rhyddhau yn gynnar) a'r amgylchedd (e.e. unigrwydd ac amser) sy'n creu cyfleoedd a heriau penodol.
- Mae gan fodel Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa weledigaeth glir y dylai pawb gael y cyfle i drawsnewid eu bywydau drwy ddefnyddio eu hamser yn y ddalfa yn effeithiol i leihau'r peryg o niwed ac ail-droseddu; i gynllunio eu hadleoliad ac i wella eu gobeithion o droi'n bobl bositif yn y gymdeithas.
- Mae OMiC yn symud y cyfrifoldeb ar gyfer rheoli achos i'r carchar ar gyfer carcharorion sydd â dedfrydau hirach. Mae hyn yn galluogi gwell asesiad ansawdd a chydlynu cynllunio dedfryd.

**<u>Cam 1: Gweithiwr Allweddol</u>**

Mae'n rhan annatod o fod yn rhan o Fand 3:

- Maen’t wedi eu hyfforddi i hyfforddi a chefnogi tua chwe charcharor drwy eu dedfryd o garchar gan gynnig model rôl bositif o ymddiriedaeth ac atebolrwydd
- Bydd gweithwyr allweddol yn cyfarfod yn wythnosol gyda'r carcharorion maen’t yn gyfrifol amdanyn nhw ar gyfer cyfarfodydd cofnodi, trafodaethau a'u cynnydd ar NOMIS. Canolbwynt y rôl hon yw lleihau'r effeithiau negyddol o fod mewn carchar drwy hyfforddi, arwain ac annog er mwyn:
  - cynnig sefydlogrwydd o fewn carchardai
  - rhoi cyfle i garcharorion ymgysylltu â'u hadsefydlu
  - galluogi i symud ymlaen drwy eu dedfryd

**Cam 2: Rheoli Achosion**

- Mae'r model rheoli achos OMiC yn symud y cyfrifoldeb dros rheoli troseddwyr yn y ddalfa oddi wrth Reolwyr Troseddwyr yn y Gymuned (COM) i Reolwyr Troseddwyr Carchar (POM) ar gyfer unrhyw droseddwr sy'n cael ei reoli gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol sy'n derbyn dedfryd gyda mwy na 10 mis ar ôl yn y carchar.

- Mae'r achosion ar gyfer Rheolwyr Troseddwyr yn y Gymuned yn edrych yn arbennig o wahanol yn y dyfodol gyda'r rhan fwyaf o'r achosion yn y gymuned neu ar fîn gadael y carchar. Bydd hyn yn galluogi ffocws cliriach ar waith yn y gymuned ac ar gyfer achosion y ddalfa ar adegau trosglwyddo tyngedfennol.

- **Achosion Tymor Byr y Ddalfa** (llai na 10 mis ar ôl o ddedfryd) - Cyfrifoldeb yn parhau gyda'r COM yn cynnwys asesiadau. Byddent yn cael cefnogaeth gan Reolwr Troseddwyr Carchar (POM) ar gyfer asesiadau fel Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro, Cyrffiw Cyfyngu i'r Cartref a throsglwyddo ar ddiwedd y cyfnod yn y ddalfa.

- **Achosion Tymor Hir** Bydd y POM yn gyfrifol am yr achos a'r mewnbwn o'r COM yn dechrau yn ystod y cyfnod adleoli/parôl (7.5/8 mis cyn rhyddau/parôl ar dariff). Disgwylir iddynt gydlynu gyda'r POM yn ystod y cyfnod hwn, gan sicrhau ymarfer da ym maes rhannu gwybodaeth a chael dealltwriaeth dda o'r achos.

**MAPPA**

- Nid yw MAPPA wedi cael ei ail-gynllunio o dan OMiC, nid yw canllawiau MAPPA wedi newid.

- Y POM sydd â'r cyfrifoldeb o hyd am gwblhau'r MAPPA F a'r COM sy'n gyfrifol am fynychu'r cyfarfodydd MAPPA.

- Er mwyn penderfynu achosion MAPPA Lefel 2/3, mae'r penderfyniad i reoli ar Lefel 2 neu 3 yn golygu trosglwyddo ar unwaith i gyfrifoldeb COM.

- Mae'n bwysig bod mewn achosion lle nad oes Rheolwr Troseddwr Cymunedol bod asiantaethau partner yn trosglwyddo unrhyw ofidion neu wybodaeth risg i'r Uned Rheoli Troseddwyr yn y carchar fel y gellir ystyried os oes angen i'r achos gael i ailbennu i'r Gymuned ar gyfer rheoli Lefel 3.

- **OMiC yng Nghymru** Yng Nghymru rhoddwyd Rheoli Achosion OMiC ar waith ar gyfer dynion o Gymru mewn carchardai yn Chwefror 2019. Yn CEH Berwyn mae gennym gyfrifoldeb am dros 94 o garcharorion o Gymru. Gan fod Cymru yn fabwysiadwr cynnar o'r model rydym yn gallu profi nifer o'r prosesau a bwydo ein dysgu yn ôl i'r Tîm Gweithredu OMiC Cenedlaethol. O'r 2il o Dachwedd 2019 ymlaen bydd elfen Rheoli Achos o'r OMiC yn cael ei gynnig i ddynion o Loegr yn ogystal.

**Emma Brett**
**CEM Berwyn**

**Cyhoeddir holl adroddiadau MAPPA o Gymru a Lloegr ar-lein yn:**

**[www.gov.uk](http://www.gov.uk)**

## Cysylltwch â ni


ACC Sacha Hachett
Prif Gwnstabl Cynorthwyol
Heddlu Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu, Glan Y Don,
Bae Colwyn
LL29 8AW
Ffôn: 0300 330 0101

Andy Jones
Prif Weithredwr Cynorthwyol
Prawf Cymru
Ffordd Conwy,
Bae Colwyn
LL29 7AA
Ffôn: 01492 530 600

Lowri A.Owen
Cydlynydd MAPPA
Uned Diogelu'r Cyhoedd
SSU Llanelwy
Llanelwy
LL17 0HW
Ffôn: 01745 588 649